O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2044 (Cy. 237)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed	*3 Awst 2012*
Yn dod i rym	*13 Awst 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun - Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Awst 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 22.00 o'r gloch ar 13 Awst 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, yn Sir Ceredigion, sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Ffordd y Môr i gyfeiriad y gogledd am bellter o 72 o fetrau.